Consortiwm Addysg Ôl-16
Gwynedd ac Ynys Môn

Post-16 Education Consortium
Gwynedd and Anglesey

# PROSBECTWS : PROSPECTUS : 16+

2019/20



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

# ARFON

# ARFON


COLEG MENAI LLANGEFNI
YSGOL DAVID HUGHES
YSGOL FRIARS
COLEG MENAI BANGOR
YSGOL TRFYAN
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL SYR HUGH OWEN
YSGOL BRYNREFAIL
GLYNLLIFON
YSGOL DYFFRYN NANTLLE



YSGOL BRYNREFAIL
YSGOL DYFFRYN NANTLLE
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL FRIARS
YSGOL SYR HUGH OWEN
YSGOL TRYFAN
COLEG MENAI
COLEG MEIRION DWYFOR

# DATGANIAD PARTNERIAID
# PARTNERS STATEMENT

Rydym wedi penderfynu gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth er budd pob dysgwr yn Ynys Môn a Gwynedd.

Rydym wedi penderfynu ar egwyddorion sylfaenol penodol, sef:

- Gwella ansawdd y dysgu
- Cynnig y cyfleoedd gorau ar gyfer holl ddysgwyr Ynys Môn a Gwynedd
- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg
- Cynyddu dewisiadau astudio

Rydym yn dymuno pob llwyddiant i chi yn eich arholiadau, ac yn rhoi i chi sicrwydd o'n hymrwymiad i weithio gyda'n gilydd i ehangu eich dewisiadau a'ch cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

We have decided to work together in partnership for the benefit of all learners in Anglesey and Gwynedd.

We have agreed certain basic principles. These are:

- To improve the quality of the learning
- To offer the best opportunities for all the learners in Anglesey and Gwynedd
- To increase opportunities for bilingual and Welsh medium provision
- To increase study options

We wish you every success in your coming examinations and give you the assurance of our commitment to working together to widen your choices and prospects for the future.

ALED JONES GRIFFITHS
Pennaeth / Principal, Coleg Menai + Coleg Meirion Dwyfor

ELLEN WILLIAMS
Pennaeth / Headteacher, Ysgol Brynrefail

ALWEN WATKIN
Pennaeth / Headteacher, Ysgol Dyffryn Nantlle

DYLAN DAVIES
Pennaeth / Headteacher, Ysgol Dyffryn Ogwen

NEIL FODEN
Pennaeth / Headteacher, Ysgol Friars

RHIAN PARRY JONES
Pennaeth Mewn Gofal / Temporary Headteacher, Ysgol Syr Hugh Owen

GWYN TUDUR
Pennaeth / Headteacher, Ysgol Tryfan





# OPSIYNAU 16+
# 16+ OPTIONS

## Yn ogystal â chael dewis o ystod ehangach o bynciau, yn eich ysgol eich hun, ynghyd ag ysgolion Arfon a Choleg Menai, byddwch, hefyd, yn elwa o'r profiad cyfan o berthyn i Chweched Dosbarth.

Ceir ystod eang o weithgareddau, clybiau, a chyfleoedd i wneud gwaith gwirfoddol yn eich ysgol a'r gymuned leol; bydd hyn yn eich cynorthwyo i ddatblygu eich sgiliau a galluoedd ehangach i ddatblygu eich CV. Mae'n bosib hefyd i chi ennill cymwysterau ychwanegol!

Cofiwch cewch lawer o fudd wrth ymroi'n llawn i fywyd a gweithgareddau'r chweched dosbarth, a'r coleg. Yn ogystal bydd cyfle i lawer o'r gweithgareddau hyn gyfrannu tuag y Fagloriaeth Cymraeg.

## Yn fuan, byddwch yn gorffen eich addysg orfodol ac yn dewis beth i'w wneud nesaf.

Y dewisiadau sydd o'ch blaen yw:

- Cwrs llawn amser yn y Chweched Dosbarth
- Cwrs llawn amser mewn coleg
- Swydd sy'n golygu rhagor o hyfforddiant, megis prentisiaeth neu gael eich rhyddhau am y diwrnod i'r coleg
- Swydd heb hyfforddiant
- Neu gyfuniad o rai o'r elfennau hyn

## As well as being able to choose from a much wider range of subject choices, both in your own school and across the schools in Arfon and Coleg Menai, you will also gain from being part of the whole Sixth Form experience.

There is a whole variety of activities, clubs and opportunities to do voluntary work in your own school and the local community; this will help you to develop your wider skills and competencies to develop your CV. You can even gain extra qualifications!

Remember you will benefit greatly from full participation in the life and activities of the sixth form and college. There will also be an opportunity for many of these activities to contribute towards the Welsh Baccalaureate.

## You will soon be completing your compulsory education and choosing what to do next.

The choices ahead of you are:

- A full-time course in the Sixth Form
- A full-time course at a college
- A job involving further training, such as an apprenticeship or day release to college
- A job without training
- Or a combination of some of these elements









# CYRSIAU
# COURSES

Mae'n hanfodol eich bod yn dangos diddordeb amlwg ym mhob agwedd ar y cwrs a chymhelliant i ddilyn y cwrs yn y coleg neu'r ysgol yn y bore a phrynhawn neu bnawn estynedig.

Efallai ni fydd cwrs ar gael yn fis Medi os ni fydd digon o ddysgwyr wedi arddangos diddordeb ynddo.

Bydd eich ysgol/coleg yn rhoi arweiniad i chi ar gyfer y cyrsiau sydd ar gael.

It is essential that you show an interest in all aspects of the course together with strong motivation to follow the course in the morning and afternoon or extended afternoon at the college or school.

It is possible that a course may not be available in September if an insufficient number of learners have expressed an interest in it.

Your school/college will advise you of the courses available.

CWRS : COURSE : YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE

**ASTUDIAETHAU BUSNES**
(Lefel Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)

BETH FYDDA' I'N EI DDYSGU?

- Datblygu dealltwriaeth o gysyniadau a damcaniaethau busnes drwy ystyriaeth feirniadol o faterion, problemau a sefydliadau busnes cyfredol sy'n effeithio ar fywyd pob dydd;
- Cymhwyso cysyniadau a damcaniaethau busnes, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyd-destunau, a deall eu gwerth a'u cyfyngiadau wrth egluro ffenomenau'r byd go iawn;
- Deall pwysigrwydd a chymhlethdod materion busnes cyfoes yn yr economi leol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae'r cwrs wedi ei rannu yn bedair uned sydd yn cael eu hasesu trwy arholiad allanol.

Ar ôl blwyddyn 13, gallwch astudio busnes, hysbysebu, marchnata, personél a phynciau perthnasol eraill ar lefel uwch.

**BUSINESS STUDIES**
(WJEC Advanced/Advanced Subsidiary Level)

WHAT WILL I LEARN?
How to develop an understanding of business concepts and theories through critical consideration of current business issues, problems and institutions that affect everyday life;

- How to apply business concepts and theories, using a range of contexts, and to appreciate their value and limitations in explaining real world phenomena;
- How to appreciate the importance and complexity of contemporary business issues in the local, national and global economy.

The course is split up into four units which are assessed through external examination.

After Year 13, you could go on to study business, advertising, marketing, personnel and other related subjects at a higher level.

**COLEG MENAI BANGOR**

(E)








| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG<br>SCHOOL/COLLEGE |
| --- | --- | --- |
| **PEIRIANNEG SIFIL**<br>(Lefel 3 BTEC Diploma Atodol)<br><br>Mae’r Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Adeiladwaith a’r Amgylchfyd Adeiledig yn cynnwys tair uned graidd a thair uned arbenigol i gwblhau’r cymhwyster.<br><br>UNEDAU CRAIDD:- Iechyd, Diogelwch a Lles mewn Adeiladwaith, Adeiladwaith Cynaladwyedd, Mathemateg mewn Adeiladwaith a’r Amgylchedd Adeiledig, Gwyddoniaeth a Deunyddiau mewn Adeiladwaith a’r Amgylchedd Adeiledig.<br><br>GALL UNEDAU OPSIYNOL GYNNWYS:- Technoleg a Dylunio Adeiladwaith mewn Adeiladwaith a Pheirianneg Sifil, Technoleg Adeiladu mewn Adeiladwaith. Ni fydd arholiadau ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a’r bwrdd arholi. | **CIVIL ENGINEERING**<br>(Level 3 BTEC Subsidiary Diploma)<br><br>The Edexcel Level 3 BTEC Subsidiary Diploma in Construction and the Built Environment consists of three core units plus three specialist units for the completed qualification.<br><br>THE COMPULSORY UNITS will cover Health, Safety and Welfare in Construction, Sustainable Construction, Mathematics in Construction and the Built Environment, Science and Materials in Construction and the Built Environment.<br><br>OPTIONAL UNITS CAN COVER:- Construction Technology and Design in Construction and Civil Engineering, Building Technology in Construction.<br><br>There will be no examinations but you will be continuously assessed through assignments and course work, which will be assessed by the tutor and the examination board. | **COLEG MENAI LLANGEFNI**<br><br>(E) |







| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG<br>SCHOOL/COLLEGE |
| --- | --- | --- |
| **CYFRYNGAU CREADIGOL (CYNHYRCHU GEMAU)**<br>(Lefel 3 BTEC Diploma Atodol)<br><br>Mae'r Lefel 3 Edexcel BTEC Diploma Atodol mewn Cyfryngau Creadigol yn cynnwys tair uned graidd a thair uned arbenigol i gwblhau'r cymhwyster.<br><br>UNEDAU CRAIDD:- Technegau cyn-gynhyrchu ar gyfer diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol, Sgiliau cyfathrebu ar gyfer cynhyrchu Cyfryngau Creadigol, Sgiliau Ymchwil ar gyfer diwydiannau Cyfryngau Creadigol.<br><br>GALL UNEDAU OPSIYNOL GYNNWYS:- Dealltwriaeth o'r diwydiant Gemau Cyfrifiadurol, Modelu ac Animeiddio 3D, Peiriannau Gemau Cyfrifiadurol, Cynllunio Gemau Cyfrifiadurol, Sŵn ar gyfer Gemau Cyfrifiadurol, Flash ar gyfer Gemau Cyfrifiadurol, Cynllunio Gemau Cyfrifiadurol, Graffeg Ddigidol ar gyfer Gemau Cyfrifiadurol.<br><br>Ni fydd arholiadau ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi. | **CREATIVE MEDIA (GAMES DEVELOPMENT)**<br>(Level 3 BTEC Subsidiary Diploma)<br><br>The Edexcel Level 3 BTEC Subsidiary Diploma in Creative Media consists of three core units plus three specialist units for the completed qualification.<br><br>THE COMPULSORY UNITS will cover Pre-Production Techniques for the Creative Media industries, Communication Skills for Creative Media Production, Research Techniques for the Creative Media industries.<br><br>OPTIONAL UNITS CAN COVER:- Understanding the Computer Games Industry, 3D Modelling and Animation, Computer Game Engines, Computer Game Design, Sound for Computer Games, Flash for Computer Games, Designing Tests for Computer Games, Digital Graphics for Computer Games.<br><br>There will be no examinations but you will be continuously assessed through assignments and course work, which will be assessed by the tutor and the examination board. | **COLEG MENAI LLANGEFNI**<br><br>(E) |
| **CYFRYNGAU CREADIGOL (TELEDU A FFILM)**<br>(Lefel 3 BTEC Diploma Atodol)<br><br>Mae'r Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Cyfryngau Creadigol yn cynnwys tair uned graidd a thair uned arbenigol i gwblhau'r cymhwyster.<br><br>UNEDAU CRAIDD:- Technegau Cyn-gynhyrchu ar gyfer Diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol, Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer cynhyrchu Cyfryngau Creadigol, Sgiliau Ymchwil ar gyfer y Diwydiannau Cyfryngau Creadigol.<br><br>GALL UNEDAU OPSIYNOL GYNNWYS:- Technegau golygu Fideo a Ffilm, Technegau Camera, Cynhyrchu a Chyflwyno yn y Diwydiant Teledu a Ffilm, Dealltwriaeth o Hysbysebu a Chynhyrchu Fideo Cerddoriaeth.<br><br>Ni fydd arholiadau ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi. | **CREATIVE MEDIA (TV & FILM)**<br>(Level 3 BTEC Subsidiary Diploma)<br><br>The Edexcel Level 3 BTEC Subsidiary Diploma in Creative Media consists of three core units plus three specialist units for the completed qualification.<br><br>THE COMPULSORY UNITS will cover Pre-Production Techniques for the Creative Media Industries, Communication Skills for Creative Media Production, Research Techniques for the Creative Media Industries.<br><br>OPTIONAL UNITS CAN COVER:- Understanding the TV and Film Industry, Film and Video Editing Techniques, Camera Techniques, Production and Presentation for the Film and TV Industry, understanding Advertising and Music Video Production.<br><br>There will be no examinations but you will be continuously assessed through assignments and course work, which will be assessed by the tutor and the examination board. | **COLEG MENAI LLANGEFNI**<br><br>(C / D / E) |





CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE

**CYFRIFIADUREG**
(Lefel UG/A CBAC)

BETH FYDDAF YN EI DDYSGU?
Mae cymhwyster UG a Safon Uwch Cyfrifiadureg CBAC yn annog dysgwyr i ddatblygu'r canlynol:

- Dealltwriaeth o, a'r gallu i gymhwyso, egwyddorion a chysyniadau sylfaenol cyfrifiadureg, gan gynnwys haniaethu, dadelfennu, rhesymeg, algorithmau a chynrychioli data.
- Y gallu i ddadansoddi problemau yn nhermau cyfrifiannu trwy brofiad ymarferol o ddatrys problemau o'r fath, gan gynnwys ysgrifennu rhaglenni i wneud hynny.
- Y gallu i feddwl yn greadigol, arloesol, dadansoddol, rhesymegol a Beirniadol.
- Y gallu i weld perthnasoedd rhwng agweddau gwahanol ar gyfrifiadureg.
- Sgiliau mathemategol.
- Y gallu i fynegi cyfleoedd unigol (moesol), cymdeithasol (moesegol), cyfreithiol a diwylliannol a risgiau technoleg ddigidol.

Mae'r cwrs hwn yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn fydd yn rhaid i chi ei wneud.

BETH FYDDAF EI ANGEN?
4 TGAU gradd A*-C i gynnwys C mewn Mathemateg (Uwch), Gwyddoniaeth a Chymraeg/Saesneg Iaith.

SUT FYDDAF YN CAEL FY ASESU?
Byddwch yn cael ei asesu yn gyson gan eich athro yn ogystal cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich athro a'r bwrdd arholi. Byddwch hefyd yn eistedd arholiad bwrdd arholi yn eich ysgol.

PWYNTIAU UCAS
Mae gradd A* yn y Lefel A yn rhoi 56 o bwyntiau UCAS i chi.

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL Y CWRS HWN?
Ar ddiwedd y cwrs, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

- Dilyn cwrs Gradd/Meistr mewn Gwyddorau Cyfrifiadureg
- Dilyn Prentisiaeth gyd cyflogwr lleol yn y maes o gynllunio meddalwedd, codio, peirianneg gyfrifiadurol.

Yn y pen draw, gellir cyflawni graddau a chymwysterau proffesiynol drwy ddilyn unrhyw rai o'r llwybrau yma.

SYNIADAU GYRFAOL!

- Peiriannydd Meddalwedd Proffesiynol
- Arweinydd Tîm Peirianneg Meddalwedd
- Peiriannydd Dylunio Meddalwedd

AM WYBOD MWY?
I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, ymwelwch â'r wefan ganlynol:
http://www.wjec.co.uk/qualifications/computer-science/computer-science-gce/
Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com

**COMPUTER SCIENECE**
(WJEC AS/A Level)

WHAT WILL I LEARN?
The WJEC AS and A Level in Computer Science encourages learners to develop:

- An understanding of, and the ability to apply, the fundamental principles. and concepts of computer science, including abstraction, decomposition, logic, algorithms and data representation.
- The ability to analyse problems in computational terms through practical experience of solving such problems, including writing programs to do so.
- The capacity for thinking creatively, innovatively, analytically, logically and critically.
- The capacity to see relationships between different aspects of computer Science.
- Mathematical skills.
- The ability to articulate the individual (moral), social (ethical), legal and cultural opportunities and risks of digital technology.

This course is a mix of practical and classroom tasks and you will get a chance to prepare and practise your skills before you are assessed so that you know and understand what you will have to do.

WHAT WILL I NEED?
4 GCSE grades A*-C, to include a C Grade in Mathematics (Higher), Science and Welsh/ English Language.

HOW WILL I BE ASSESSED?
You will be assessed regularly by your teacher and asked to produce a coursework portfolio which will be assessed by your course teacher and the examination board and sit exam board examinations in your school.

UCAS POINTS
An A* grade in the WJEC Computer Science will give you 56 UCAS points.

WHAT HAPPENS AFTER THIS COURSE?
At the end of this course here are some of the pathways available:-

- Follow a modern Degree/Masters course in Computer Science.
- Gain a modern apprenticeship with a local employer in the Computer science/coding sector.

Ultimately professional qualifications can be achieved by following any of these pathways.

CAREER IDEAS!

- Professional Software Engineer
- Professional Computer science Team Leader
- Software Design Engineer

WANT TO KNOW MORE?
To find out more about this course, visit the following web page:
http://www.wjec.co.uk/qualifications/computer-science/computer-science-gce/
Or contact: www.careerswales.com

**YSGOL GYFUN LLANGEFNI**

(C / D / E)

| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG<br>SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|
| **DRAMA**<br>(Safon Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)<br><br>Mae'r Cwrs Safon Uwch/Uwch Gyfrannol Drama ac Astudiaethau Theatr yn cynnwys pedair uned orfodol i gwblhau'r cymhwyster.<br><br>UWCH GYFRANNOL:<br>DA1 Gweithdy Perfformio: Perfformir dwy olygfa - drama osod a darn dyfeisiedig gan arbrofi gyda dulliau ymarferwyr theatr gwahanol.<br><br>DA2 Testun mewn perfformiad: Astudiaeth o ddwy ddrama osod o wahanol gyfnodau o safbwynt cymeriadu a llwyfannu: Ysgrifennu adolygiad o berfformiad byw yn y theatr.<br><br>SAFON UWCH:<br>DA3 Perfformiad ar Thema osod gyda gwerthusiad ysgrifenedig o'r gwaith i ddilyn.<br><br>DA4 Testun yn ei gyd-destun :Astudiaeth o ddwy ddrama osod ynghyd ag ystyriaeth o gyfarwyddo,cynllunio a llwyfannu. | **DRAMA**<br>(WJEC Advanced/Advanced Subsidiary Level)<br><br>The A level/AS level course in Drama and Theatre studies consists of four compulsory units.<br><br>ADVANCED SUBSIDIARY:<br>DA1 Performance workshop: Two scenes will be performed - one set and the other devised using the methods of two different theatre practitioners.<br><br>DA2 Text in performance: A study of two set plays from different periods in terms of characterisation and staging: A written review of a live theatrical performance.<br><br>ADVANCED LEVEL:<br>DA3 Performance on a set theme with a written evaluation of the work to follow.<br><br>DA4 Text in context: A study of two set plays and an unit which concentrates on directing,design and staging. | **YSGOL UWCHRADD BODEDERN**<br><br>(C)<br><br>**YSGOL FRIARS**<br><br>(E) |





| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE |
| --- | --- | --- |
| **D&T: DYLUNIO CYNNYRCH**<br>(Lefel Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)<br><br>Cynlluniwyd y maes llafur hwn i ddarparu dilyniant o TGAU ac i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer astudio mewn addysg uwch.<br><br>Y PRIF FEYSYDD ASTUDIO YM MLWYDDYN 12 YW: Archwilio'r dewisiadau o ran ffordd o fyw sydd ar gael a'r ffactorau sydd yn effeithio/ dylanwadu ar y dewisiadau hyn: y cyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael i'r rhai sydd yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau; beth mae cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol yn ei gynnig yn gorfforol, yn seicolegol ac yn dechnegol; rôl maeth mewn perfformiad ac iechyd: y manteision o fyw bywyd heini.<br><br>YM MLWYDDYN 13 Y PRIF FEYSYDD YW: mireinio perfformiad chwaraeon a gwella a chynnal iechyd; y cyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol; y ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a moesegol a allai ddylanwadu ar faint o weithgaredd corfforol a wneir; masnacheiddio chwaraeon; datblygiadau gwyddonol a thechnolegol mewn gweithgaredd corfforol. | **D&T: PRODUCT DESIGN**<br>(WJEC Advanced/Advanced Subsidiary Level)<br><br>The course is a natural progression to Design & Technology at KS4 - areas Resistant Materials, Product Design and Graphic Products. Design and Technology offers an unique opportunity in the curriculum for candidates to identify and solve real problems by designing and making products or systems in a wide range of contexts relating to their personal interests. Design and Technology develops candidates' interdisciplinary skills and their capacity for imaginative, innovative thinking, creativity and independence.<br><br>Presentations, explanations and expectations will be covered during lessons. For the majority of the afternoon sessions in school, students will be working on their Design & Make project.<br><br>It is expected that students will continue with their design and development and theory work outside the allotted contact time. | **YSGOL BRYNREFAIL**<br><br>(C / D / E) |







| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|
| **FFRANGEG**<br>(Lefel Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)<br><br>Siarad Ffrangeg yn fwy rhugl a datblygu sgiliau gwrando, darllen a deall ac ysgrifennu yn yr iaith dramor.<br><br>Gwella sgiliau technoleg gwybodaeth drwy wneud cyflwyniadau llafar yn Ffrangeg.<br><br>Gwella'r sgil o weithio mewn grŵp drwy baratoi gwaith llafar ac ysgrifennu ar gyfer ei asesu.<br><br>Dysgu mwy am y ffordd o fyw a llefydd yn Ffrainc, Gwlad Belg, y Swistir a gwledydd eraill yn y byd lle siaredir Ffrangeg.<br><br>Gwella eich hunanhyder, sgiliau canolbwyntio a dysgu ar y cof, a sylwi ar berthynas a phatrwm rhwng ieithoedd.<br><br>Sut i ddefnyddio'ch profiad o'r cwrs ar gyfer y byd gwaith a'ch oriau hamdden i ddysgu ieithoedd eraill ac i ehangu gorwelion.<br><br>Disgwylir i'r disgyblion wrando ar CDs ac actio mewn parau neu mewn grŵp yn Ffrangeg. Mae cyfleoedd i ddefnyddio cylchgronau a llyfrau Ffrangeg, a chyfrifiaduron i ymchwilio a gwneud gwaith. | **FRENCH**<br>(WJEC Advanced/Advanced Subsidiary Level)<br><br>To speak French more fluently and develop listening, reading and understanding, and writing skills in the foreign language.<br><br>Improve information technology skills by doing oral presentations in French.<br><br>Improve the skill of working in a group by the preparation of oral and written work for assessment.<br><br>Learn more about the lifestyle and places in France, Belgium, Switzerland and other countries in the world where French is spoken.<br><br>Improve your self-confidence, concentration and memorising skills and notice the relationship and pattern between languages.<br><br>How to use your experience of the course for the world of work and use your leisure times to learn other languages and broaden your horizons.<br><br>The pupils are expected to listen to CDs and act in pairs or in a group in French. There is an opportunity to use French magazines and books and computers to research and complete work. | **YSGOL FRIARS/ YSGOL DAVID HUGHES** |








| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|

**MATHEMATEG PELLACH**
(Lefel Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)

BETH FYDDAI'N EI DDYSGU?
Y tair prif ddisgyblaeth o Fathemateg Pur, Mecaneg ac Ystadegaeth.

SUT FYDDAI'N DYSGU?
Cyfres o fodiwlau ym mhob un o'r tair disgyblaeth a gaiff eu cytuno i roi Mathemateg Pellach mewn Lefel A.

BETH FYDD EI ANGAN ARNAF?
Gradd 'A' yn y TGAU.

SUT FYDDAI'N CAEL FY ASESU?
Trwy arholiad yn unig.

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL Y CWRS HWN?
Astudiaethau lefel gradd mewn cyrsiau'n seiliedig ar fathemateg, megis gwyddoniaeth pur a pheirianneg.

**FURTHER MATHEMATICS**
(WJEC Advanced/Advanced Subsidiary Level)

WHAT WILL I STUDY?
The three main disciplines of Pure Mathematics, Mechanics and Statistics.

HOW WILL I STUDY?
A series of modules in each of the three disciplines which will be aggregated to give Further Maths at A Level.

WHAT WILL I NEED?
An 'A' grade at GCSE.

HOW WILL I BE ASSESSED?
By examination only.

WHAT HAPPENS AFTER THIS COURSE?
Degree level studies in mathematics based courses, such as pure sciences and engineering.

**YSGOL FRIARS**
(C / D / E)







| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG<br>SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|
| **DAEARYDDIAETH**<br>(Lefel Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)<br><br>Mae CBAC yn cynnig cwrs TAG pedair uned gan ddilyn dull ymholi ar gyfer gwaith maes ar lefel UG ac A2. Mae hwn yn gwrs poblogaidd y mae dysgwyr mewn canolfannau led led Cymru a Lloegr yn ei fwynhau am sawl rheswm. Anogir myfyrwyr yn y fanyleb hon i ddeall byd sy'n fyd-eang, ei heriau cymhleth a materion fel newid hinsawdd, newidiadau mewn pŵer economaidd, tlodi ac amddifadedd a chynaliadwyedd. Mae'n ddilyniant hefyd o'r TGAU Daearyddiaeth A neu TGAU Daearyddiaeth B.<br><br>Mae'n angenrheidiol eich bod wedi derbyn gradd C o leiaf yn eich TGAU Daearyddiaeth cyn dechrau astudio'r lefel A yn y maes. | **GEOGRAPHY**<br>(WJEC Advanced/Advanced Subsidiary Level)<br><br>WJEC offers a four unit course at GCE with an enquiry based approach to fieldwork at both AS and A2. It is a popular course enjoyed by learners in centres all over England and Wales for a number of reasons. The specification encourages students to understand a global world, its complex challenges and such issues as climate change, shifts in economic power, poverty and deprivation and sustainability. It also provides progression from either GCSE Geography A or GCSE Geography B.<br><br>It is essential that you have achieved at least a GCSE grade C in Geography before commencing studying this subject at A level. | **YSGOL DYFFRYN NANTLLE**<br><br>(C / D / E) |





| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|
| **ALMAENEG**<br>• Yn ystod y cwrs byddwch yn astudio ystod o themâu fydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau llafar, gwrando, darllen ac ysgrifennu Almaeneg.<br>• Yn ogystal â dysgu i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu byddwch yn gweithio ar eich sgiliau TGCh drwy ddod o hyd i, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.<br>• Byddwch yn gweithio ar eich pen eich hunain, mewn pâr neu mewn grwp i gwblhau tasgau neu i siarad yn yr iaith darged. Byddwch yn cymryd rhan mewn gemau iaith a thasgau datrys problemau.<br>• Byddwch yn dysgu i gymharu eich diwylliant, iaith a chymuned eich hunain gyda'r Almaen a gwledydd sydd yn siarad Almaeneg.<br>• Tra'n astudio ystod o themâu sydd yn ymwneud â'r Almaen a gwledydd sydd yn siarad Almaeneg byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd yng nghymdeithas fyd-eang yr unfed ganrif ar hugain a byd gwaith. | **GERMAN**<br>• During this course you will study a range of topics which will help to develop your speaking, listening, reading and writing skills in German.<br>• As well as learning to develop your communication skills you will work on your ICT skills by finding, creating and presenting information and ideas.<br>• You will work independently, in pairs or groups to complete tasks or to speak in the target language. You will take part in language games and solving puzzles.<br>• You will learn to compare your own culture, language and community with those of Germany and other German speaking countries.<br>• By studying a range of topics with reference to Germany and other German speaking countries you will develop awareness of the importance of languages in the global society of the twenty-first century and the world of work. | **YSGOL DAVID HUGHES** |







CWRS : COURSE : YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL
(Lefel 3 OCR)

Mae Tystysgrif Technegol Cambridge gyfwerth ac un Lefel UG a'r Diploma Rhagarweiniol gyfwerth a 1 cymhwyster Lefel A2. Mae cymhwyster OCR Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cwmpasu ystod o bynciau sy'n berthnasol i leoliadau bywyd go iawn fel addysg y blynyddoedd cynnar, iechyd a lles, maeth a gofal preswyl. Mae'r pwnc yn ddefnyddiol ar gyfer y rhai sydd am fynd i mewn proffesiynau megis addysg, nyrsio, bydwreigiaeth, gwaith cymdeithasol a gweithio o fewn y sector gofal.

SUT MAE'R CWRS YN CAEL EI ASESU?
Mae'r cwrs yn cynnwys lleiafrif o unedau gorfodol, a nifer o unedau dewisol. Mae pob uned yn cael ei hasesu'n fewnol ac yna ei safoni'n allanol gan y Corff Dyfarnu. Cyflwynir y cwrs tros ddwy flynedd. Mae pob uned yn cael eu hasesu a'u graddio 'llwyddo', 'teilyngdod', neu 'rhagoriaeth' a bydd gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster llawn. Mae'r cwrs yn cynnig ystod o asesiadau galwedigaethol yn ymarferol ac yn ysgrifenedig. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr yn gallu arddangos eu dysgu a'u cyflawniadau yn y ffordd orau.

BETH NESAF?
Mae Diploma Rhagarweiniol OCR Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cymhwyso myfyrwyr i astudio ar gyfer gradd mewn pynciau cysylltiedig megis Cymdeithaseg, Seicoleg, neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch mewn unrhyw bwnc cysylltiedig. Mae myfyrwyr hefyd yn cael eu paratoi i fynd i mewn i gyflogaeth berthnasol o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

## HEALTH AND SOCIAL CARE
(OCR Level 3)

A Cambridge Technical Certificate is a vocational qualification at Level 3 that is the equivalent of one AS Level and the Introductory Diploma is the equivalent of one A2 level.

The course is intended to provide students with an introduction to and development of knowledge and skills appertaining to the Health and Social Care Sectors.

The OCR Extended Certificate in Health and Social Care covers a wide range of topics that apply to real life settings such as early years' education, health and wellbeing and residential care to name just a few. This subject is useful for those wishing to enter professions such as teaching, nursing, midwifery, social work and work within the care sector.

HOW IS THE COURSE ASSESSED?
The course consists of minimal mandatory units, and a plethary of optional units. All units are internally assessed and standardised externally by the Awarding Body. The course is delivered over two years. All units are assessed and graded 'pass', 'merit', or 'distinction' and an overall grade for the qualification is awarded. The course offers a range of vocational assessments both practical and written. This means that students will be able to showcase their learning and achievements to best effect.

WHAT NEXT?
The OCR Level 3 Introductory Diploma in Health and Social Care qualifies students to study for a degree in related subjects such as Sociology, Psychology, Social Work. Students also are equipped to enter relevant employment within the health and social care sector.

**YSGOL BRYNREFAIL**

(C / D / E)







CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE

**TGCH**
(Safon Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)

Bydd cymhwyster TGCH yn eich cefnogi i ddatblygu ystod eang o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn y maes.

Byddwch yn astudio'r gwahanol dechnolegau sy'n amlygu a'u heffaith ar unigolion a chymdeithas; deall oblygiadau defnyddio TGCH a meddu'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o TGCH i ddatrys problemau.

UG/A2

Mae blwyddyn gyntaf y cwrs yn ymdrin a testunau megis:

- Uned TGCH1: Systemau Gwybodaeth
- Uned TGCH 2:Cyflwyno Tasg Gwybodaeth

Mae'r ail flwyddyn yn eich galluogi i gwblhau'r cwrs gyda testunau megis:

- Uned TGCH 3: Defnydd ac Effaith TGCH
- Uned TGCH 4: Prosiect cronfa ddata perthynol

DILYNIANT

Mae nifer o fyfyrwyr yn symud ymlaen i astudio cyrsiau perthnasol mewn prifysgol e.e. TG ac Astudiaethau Busnes, Rheolaeth TG a systemau rheoli gwybodaeth neu yrfa mewn cefnogi defnyddwyr TG, dadansoddi systemau a datblygu systemau. Mae nifer o fyfyrwyr yn symud i gyflogaeth yn y maes neu gynllun prentisiaeth.

**ICT**
(AS/A2 WJEC)

A level ICT will assist you in developing a broad range of skills, knowledge and understanding of ICT.

You will study the different technologies emerging and their impact on individuals and society; understand the consequences of using ICT and acquire the skills, knowledge and understanding of ICT to help solve problems.

AS/A2 UNITS

The first year is the AS course and covers topics such as:

- Unit IT1: information systems
- Unit IT2: presenting information task

The second year completes the A' level with topics such as:

- Unit IT3: use and impact of ICT
- Unit IT4: relational database project

PROGRESSION

Many students apply to and are offered places at university to study courses such as IT and business studies, IT management and business information systems or any career in user support, systems analysis and systems development. A number of students go onto employment or move onto an apprenticeship programme.

**YSGOL DYFFRYN OGWEN**

(C / D / E)





CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE

**PEIRIANNEG FECANYDDOL**
(Lefel 3 BTEC Diploma Atodol)

Bydd y cymhwyster yn cynnwys 6 uned wedi'u dewis o blith banc o unedau Gorfodol a Dewisol.

BYDD UNEDAU CRAIDD GORFODOL yn cael eu dewis o blith y canlynol: Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle Peirianneg, Cyfathrebu ar gyfer Technegwyr Peirianneg, Prosiect Peirianneg, Mathemateg ar gyfer Technegwyr Peirianneg, Egwyddorion a Chymwysiadau Mecanyddol. Mae'r rhain yn gyflwyniad cyffredinol i beirianneg ac yn cyflwyno'r sylfeini ar gyfer cymhwyso egwyddorion peirianneg.

BYDD UNEDAU OPSIYNOL yn cael eu dewis mewn cydweithrediad rhwng ysgolion, diwydiannau lleol a Choleg Menai. Unedau posibl fyddai:

Dylunio mewn Peirianneg, Nodweddion Deunyddiau Peirianneg a'u Defnydd, Drafftio â Chymorth Cyfrifiadur mewn Peirianneg, Defnydd o Reolyddion Rhifiadol mewn Peirianneg, Technegau a Phrosesau Eilaidd a Gorffen.

Ni fydd arholiadau ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

**MECHANICAL ENGINEERING**
(Level 3 BTEC Subsidiary Diploma)

The qualification will consist of 6 units selected from a bank of Mandatory and Optional units.

THE COMPULSORY UNITS will be selected from the following units: Health and Safety in the Engineering Workplace, Communications for Engineering Technicians, Engineering Project, Mathematics for Engineering Technicians, Mechanical Principles and Applications. These give a general introduction into engineering and the basics to apply engineering principles.

OPTIONAL UNITS will be selected in collaboration between schools, local industry and Coleg Menai. The following are a short list of possible units:

Engineering Design, Properties and Applications of Engineering Materials, Computer Aided Drafting in Engineering, Applications of Computer Numerical Control in Engineering, Engineering Secondary and Finishing Techniques and Processes.

There will be no examinations but you will be continuously assessed through assignments and course work, which will be assessed by the tutor and the examination board.

**COLEG MENAI LLANGEFNI**

(C / D / E)









| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|
| **CERDD**<br>(Safon Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)<br><br>SAFON UG<br>Perfformio Cyfansoddi a Gwerthuso.<br><br>LEFEL A<br>Perfformio Cyfansoddi a Gwerthuso.<br><br>Cynhelir y gwersi yn Ysgol Tryan fel rhan o Bartneriaeth Arfon.<br><br>Byddwch angen y gallu i berfformio ar offeryn cerdd neu ganu yn ogystal â'r gallu i ddadansoddi a gwerthfawrogi cerddoriaeth trwy ddilyn sgôr. Y gallu i gyfansoddi a bod yn greadigol gyda cherddoriaeth.<br><br>Byddwch yn cael eich arholi'n allanol yn y tair elfen uchod. | **MUSIC**<br>(WJEC Advanced/Advanced Subsidiary Level)<br><br>AS<br>Performing, Composing and Evaluating.<br><br>A LEVEL<br>Performing, Composing and Evaluating.<br><br>The lessons are held in Ysgol Tryfan as part of the Arfon Partnership.<br><br>You will need the ability to play a musical instrument or to sing as well as the ability to analyse and appreciate music by reading from a score. The ability to compose and to be creative with music.<br><br>There will be an external examination in all three elements. | **YSGOL TRYFAN**<br><br>(C / D / E) |







| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|
| **TECHNOLEG CERDD**<br>(Lefel 3 BTEC Diploma Atodol)<br><br>Mae'r Lefel 3 BTEC Diploma Atodol mewn Technoleg Cerdd yn cynnwys tair uned graidd a thair uned arbenigol i gwblhau'r cymhwyster.<br><br>MAE'R UNEDAU YN CYNNWYS Technegau Recordio, Perfformio, Cyfansoddi Caneuon, Trefnu Cerdd a Cherddoriaeth Gyfrifiadurol.<br><br>Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon, Ynys Môn a Choleg Menai ac yn cyfateb i un Lefel A (bydd astudiaeth am flwyddyn yn rhoi mynediad i Dystysgrif BTEC lefel 3, sydd yn cyfateb i un Ug). Mae'r cyrsiau yma wedi eu cefnogi gan ystod o ddiwydiannau lleol. Byddwch yn treulio prynhawn estynedig (1.00yp - 5.00yp) yng Ngholeg Menai, safle Bangor.<br><br>Byddwch hefyd yn gorfod treulio ychydig o amser bob wythnos yn astudio ar safle adnoddau ar lein Coleg Menai. Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Goleg Menai.<br><br>Ni fydd arholiadau ond byddwch yn cynhyrchu portffolio o waith cwrs a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi. | **MUSIC TECHNOLOGY**<br>(Level 3 BTEC Subsidiary Diploma)<br><br>The Edexcel Level 3 BTEC Subsidiary Diploma in Music consists of three core units plus three specialist units for the completed qualification.<br><br>THE UNITS WILL COVER Recording Techniques, Performance, Songwriting, Arranging Music and Computer Music Systems.<br><br>The course is a partnership between Arfon and Anglesey secondary schools and Coleg Menai and is the equivalent of one A Level (one year of study will give the opportunity to achieve a level 3 BTEC Certificate which is equivalent to one As Level). You will spend a full-extended afternoon (1.00pm - 5.00pm) at Coleg Menai, Bangor site.<br><br>You will also need to spend some time studying each week using Coleg Menai's online resources. Your school will arrange free transport to and from Coleg Menai.<br><br>There will be no examinations but you will be continuously assessed through assignments and course work, which will be assessed by the tutor and the examination board. | **COLEG MENAI BANGOR**<br><br>(C / D / E) |







| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG<br>SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|

**SEICOLEG**
(Safon Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)

Mae'r fanyleb ar gyfer Seicoleg UG a safon uwch yn annog ymgeiswyr i:

- Ddeall natur wyddonol Seicoleg;
- Caffael gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o theorïau seicolegol yn ogystal ag ymagweddau, cysyniadau, astudiaethau craidd a dulliau;
- Caffael a datblygu sgiliau dadansoddi, dehongli a gwerthuso;
- Deall methodoleg seicolegol ac amrediad o ddulliau ymchwil (meintiol ac ansoddol);
- Datblygu dealltwriaeth o wahanol feysydd Seicoleg a'u cymwysiadau;
- Cynllunio a pharatoi adroddiadau ar ymchwiliadau seicolegol, ynghyd â dadansoddi a dehongli data;
- Gwerthfawrogi arwyddocâd materion moesegol mewn Seicoleg;
- Datblygu sgiliau sy'n cryfhau'r gallu i gyfranogi'n fwy effeithiol ym mywyd oedolion.

**PSYCHOLOGY**
(As/A Level WJEC)

AS and A level specifications in Psychology encourage candidates to:

- Understand the scientific nature of Psychology;
- Acquire knowledge and a critical understanding of psychological theories, approaches, concepts, core studies and methods;
- Acquire and develop skills of analysis, interpretation and evaluation;
- Understand psychological methodology and a range of research methods (both quantitative and qualitative);
- Develop an understanding of different areas and applications of Psychology;
- Design and report psychological investigations, and analyse and interpret data;
- Appreciate the significance of ethical issues in Psychology;
- Develop skills that enhance the ability to participate more effectively in adult life.

**YSGOL SYR HUGH OWEN**

(C / D / E)







| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|
| **CYMDEITHASEG**<br>(Safon Uwch/Uwch Gyfrannol CBAC)<br><br>Mae Cymdeithaseg yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r newidiadau sy'n digwydd yn y gymdeithas ym Mhrydain. Ceir ynddi hefyd gyfleoedd i ddysgu am ddulliau ac ymchwil cymdeithasegol. Gall testunau dewisol eu defnyddio i gefnogi astudiaethau galwedigaethol megis iechyd a gofal cymdeithasol, nyrsio a gwaith cymdeithasol. Mae'r cwrs hwn hefyd yn sylfaen addas ar gyfer astudio cymdeithaseg neu faes cysylltiedig mewn addysg uwch megis troseddeg neu'r gyfraith.<br><br>Bydd dewis o destunau ar gael i'r dysgwyr, yn cynnwys teuluoedd, diwylliant ieuenctid, y gymuned, addysg, crefydd, y cyfryngau torfol, trosedd, gwleidyddiaeth, iechyd ac anabledd, rhaniadau cymdeithasol a chymdeithaseg fyd-eang.<br><br>Mae'r pwyslais ar sgiliau yn y fanyleb yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu a dangos eu 'dychymyg cymdeithasegol' trwy ganolbwyntio ar eu hunaniaeth bersonol, eu cyfrifoldebau a'u rôl yn y gymdeithas. | **SOCIOLOGY**<br>(As/A Level WJEC)<br><br>Sociology allows learners the opportunity to develop an understanding of changing British society as well as opportunities to learn about sociological methods and research. The choice of topics can be used to support vocational studies such as health and social care, nursing and social work. The course is also a suitable foundation for the study of sociology or a related area of higher education courses such as criminology or law.<br><br>Learners will be offered a choice of topics that include families, youth culture, the community, education, religion, mass media, crime, politics, health and disability, social divisions and world sociology.<br><br>The emphasis on skills allows learners to develop and demonstrate their 'sociological imagination' by focusing on their own personal identity, responsibilities and roles within society. | **YSGOL TRYFAN**<br><br>(C / D / E) |







| CWRS | COURSE | YSGOL/COLEG SCHOOL/COLLEGE |
|---|---|---|
| **LLYWODRAETH A GWLEIDYDDIAETH** (Safon Uwch / Uwch Gyfrannol CBAC)<br><br>CYNNWYS Y FANYLEB<br><br>UWCH GYFRANNOL:<br>**Uned 1: Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig**<br>Mae Uned 1 yn cyflwyno'r ffordd y mae Cymru a'r DU yn cael eu llywodraethu heddiw. Drwy astudio'r Cyfansoddiad; y Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd; Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; Y Goruchaf Lys a'r UE, bydd dysgwyr yn gallu trafod, dadansoddi a gwerthuso'r themâu, y materion a'r dadleuon allweddol sy'n gysylltiedig â llywodraethiant yng Nghymru a'r DU.<br><br>**Uned 2: Byw a chyfranogi mewn democratiaeth**<br>Mae Uned 2 yn cyflwyno'r cysyniad o ddinasyddiaeth weithgar; hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion, rhai o'r ffyrdd y gall dinasyddion gymryd rhan mewn democratiaeth a phwysigrwydd ymgysylltu â dinasyddion.<br><br>SAFON UWCH:<br>**Uned 3: Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol,** yn cynnwys astudio damcaniaethau gwleidyddol a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol am amrywiaeth o draddodiadau ideolegol: rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth, sosialaeth, comiwnyddiaeth a chenedlaetholdeb, a'u perthnasedd cyfoes. Wrth iddyn nhw astudio effaith syniadau gwleidyddol ar wleidyddiaeth fyd-eang, disgwylir i ddysgwyr astudio o leiaf dau ranbarth global yn Affrica, Gogledd, Canolbarth a De America, Asia ac Ewrop.<br><br>**Uned 4: Llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA**<br>Mae'r uned hon yn cyflwyno llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA i ddysgwyr drwy ystyried tair thema gysylltiedig: democratiaeth yn America, llywodraethiant a chyfranogiad.<br><br>Mae'r cymhwyster hwn mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yn cynnig cwrs astudio eang, cydlynol, boddhaol a gwerth chweil. Mae'n annog dysgwyr i feithrin hyder mewn gwleidyddiaeth ac agwedd gadarnhaol tuag at y pwnc, ac i gydnabod pa mor bwysig yw'r pwnc yn eu bywydau eu hunain ac i gymdeithas.<br><br>Bydd y wybodaeth a gewch yn ddefnyddiol ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd e.e. Llywodraeth Leol, Newyddiaduraeth, Y Gyfraith, Gwleidyddiaeth (Gwleidydd, Ymchwilydd, Ymgynghorydd), Cyfrifeg a Bancio ac ati. | **GOVERNMENT AND POLITICS** (WJEC Advanced / Advanced Subsidiary Level)<br><br>SPECIFICATON<br><br>ADVANCED SUBSIDIARY:<br>**Unit 1: Government in Wales and the UK**<br>Unit 1 serves as an introduction to how Wales and the UK is governed today. Through the study of the Constitution; National Assembly and Parliament; Welsh and UK Government; The Supreme Court and the EU, learners will be able to discuss, analyse and evaluate the key themes, issues and debates surrounding governance in Wales and the UK.<br><br>**Unit 2: Living and Participating in democracy**<br>Unit 2 is an introduction to the concept of active citizenship; the rights and responsibilities of citizens, some of the ways in which citizens can participate in a democracy and the importance of citizen engagement.<br><br>ADVANCED LEVEL:<br>**Unit 3: Political Concepts and theories,** involves the study of political theories and their application. Learners will develop a critical knowledge and understanding of a range of ideological traditions: liberalism, conservatism, socialism, communism and nationalism, and their contemporary relevance. In studying the impact of political ideas on global politics learners are expected to study at least two global regions from Africa, The Americas, Asia and Europe.<br><br>**Unit 4: Government and Politics of the USA**<br>This unit introduces learners to the government and politics of the USA through an examination of three related themes: democracy in America, governance and participation.<br><br>This WJEC GCE in Government and Politics provides a broad, coherent, satisfying and worthwhile course of study. It encourages learners to develop confidence in, and a positive attitude towards, politics and to recognise its importance in their own lives and to society.<br><br>The knowledge you gain will also be useful in a range of careers e.g. Local Government, Journalism, Law, Politics (Politician, Researcher, Advisor), Accountancy & Banking etc. | **COLEG MEIRION DWYFOR. SGILIAITH TRWY FIDEO YN YSGOL BRYNREFAIL NEU YSGOL TRYFAN**<br><br>**COLEG MEIRION DWYFOR. SGILIAITH THROUGH VIDEO IN YSGOL BRYNREFAIL OR YSGOL TRYFAN**<br><br>(C / D / E) |


YSGOL BRYNREFAIL
YSGOL DYFFRYN NANTLLE
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL FRIARS
YSGOL SYR HUGH OWEN
YSGOL TRYFAN
COLEG MENAI
COLEG MEIRION DWYFOR

Consortiwm Addysg Ôl-16
Gwynedd ac Ynys Môn
Post-16 Education Consortium
Gwynedd and Anglesey